

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

RHONDDA CYNON TAF

# Dweud eich Dweud ar Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Drafft y Cyngor

**Rhowch wybod i ni beth yw'ch barn erbyn 2 Hydref 2023**

## Sut mae modd i mi gael dweud fy nweud?

- Ewch i: **www.rctcbc.gov.uk/YmgynghoriadauPresennol** am ragor o wybodaeth neu i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad
- E-bost: **ymgynghori@rctcbc.gov.uk**
- Ffôn: 01443 425014
- Trwy lythyr: Rhadbost RSBU-HJUK-LSSS, Carfan Materion Ymchwil ac Ymgynghori, Cysylltiadau Cyhoeddus a Strategaeth, Y Pafiliynau, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX

## Beth mae'r Cyngor yn dymuno ei wneud?

Mae'r Cyngor yn dymuno ceisio barn y cyhoedd, gweithwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor), partneriaid risg ac awdurdodau cyfagos ar **Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rheoli Perygl Llifogydd Lleol** drafft y Cyngor.

Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu drafft yn amlinellu cynigion y Cyngor ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol yn RhCT dros y 6 blynedd nesaf.

## Pam mae'r Cyngor yn gwneud hyn?

O dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (y Ddeddf) 2010, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yw'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ar gyfer ei ardal weinyddol. O dan y ddeddfwriaeth hon, mae'n ofynnol i'r Cyngor "ddatblygu, cynnal, cymhwyso a monitro" Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol. Diffinnir perygl llifogydd lleol fel perygl llifogydd o ddŵr ffo wyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin.

Mae cyhoeddi'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (Strategaeth Genedlaethol) ym mis Hydref 2020 yn sbarduno'r gofynion o dan Adran 10 (5) o Ddeddf 2010 i'r Cyngor yn rhinwedd ei rôl yn Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol i adolygu ei Strategaeth bresennol a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig. Y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu drafft yma yw'r ail Strategaeth o'i math gan y Cyngor.

## Beth mae'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu yn ei wneud?

Mae'r Strategaeth yn cyflwyno Amcanion a Mesurau'r Cyngor ar gyfer rheoli perygl llifogydd o ffynonellau lleol yn RhCT, sy'n ffurfio'r fframwaith sy'n galluogi cymunedau i ddylanwadu ymhellach ar benderfyniadau o ran rheoli perygl llifogydd lleol.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn gynllun manwl ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol dros y 6 blynedd nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys tasgau, gweithgareddau neu fentrau penodol i gyflawni'r amcanion a'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth, er enghraifft, llunio a darparu Cynllun Lliniaru Llifogydd.

## Pa lifogydd y mae'r Strategaeth yn ceisio eu rheoli?

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar reoli perygl llifogydd o ffynonellau lleol. Diffinnir perygl llifogydd lleol fel perygl llifogydd o ddŵr ffo wyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin.

Mae'r Strategaeth hefyd yn cydnabod ac yn ystyried ffynonellau eraill o berygl llifogydd (gan gynnwys prif afonydd a charthffosydd) yn ogystal â'r Awdurdodau Rheoli Risg cysylltiedig sy'n gyfrifol.

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg. | You are welcome to communicate with us in Welsh.



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

RHONDDA CYNON TAF

# Dweud eich Dweud ar Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Drafft y Cyngor

## Beth sydd wedi newid ers y Strategaeth gyntaf?

Cyhoeddodd y Cyngor ei Strategaeth gyntaf yn 2013. Ochr yn ochr â'r Strategaeth, cyhoeddwyd **Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd** yn 2015, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Perygl Llifogydd (2009). Datblygodd y Cynllun yma'r amcanion a'r mesurau yn y Strategaeth yn gynllun manwl ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol yn RhCT.

Er bod y Cyngor wedi cyhoeddi'r Strategaeth a'r Cynllun Rheoli ar wahân yn flaenorol, mae'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu diwygiedig yn cyfuno'r ddwy ddogfen yn un, fel bod modd i'r Cyngor drin a thrafod perygl llifogydd lleol mewn ffordd symlach a mwy effeithiol.

Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu diwygiedig yn adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o'r Strategaeth gyntaf ac yn nodi sut y bydd llifogydd o ffynonellau lleol yn cael eu rheoli ar draws RhCT, yn gyson â'r Amcanion, Mesurau, polisïau a deddfwriaeth gysylltiedig a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol.

## Sut mae'r Strategaeth yn ystyried newid hinsawdd?

Mae gweledigaeth y strategaeth yn un hirdymor, gan gydnabod natur perygl llifogydd o ran heriau newid hinsawdd, sy’n cynnwys stormydd mwy cyson a dwys sy’n achosi fflachlifoedd.

Bydd yr Amcanion, Mesurau a Chamau Gweithredu a nodir yn y Strategaeth a’r Cynllun Gweithredu yn helpu i leihau’r perygl o lifogydd lle bo modd gwneud hynny, yn ogystal ag addasu ein cymunedau a’n seilwaith o ran paratoi ar gyfer digwyddiadau eithafol o’r fath, a sut mae modd i ni wrthsefyll llifogydd pan fyddan nhw'n digwydd.

## Beth yw'r asesiadau amgylcheddol?

Mae asesiadau wedi'u cynnal ochr yn ochr â gwaith llunio'r Strategaeth ddrafft a'r Cynllun Gweithredu i sicrhau bod yr Amcanion, Mesurau a Chamau Gweithredu a gyflwynir yn ystyried yr amgylchedd yn RhCT. Mae'r asesiadau hyn yn ystyried ac yn cofnodi sut mae'r Strategaeth yn cyfrannu at gyflawni amcanion amgylcheddol ehangach.

Mae'r asesiadau amgylcheddol sy'n cyd-fynd â hi yn cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol drafft a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft. Mae'r ddau ohonynt wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn.

## Am ba mor hir mae'r Strategaeth yn para?

Bydd y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu ar waith am 6 blynedd o'r dyddiad cyhoeddi a byddant yn cael eu diweddaru yn unol â diwygiadau i'r Strategaeth Genedlaethol yn y dyfodol.

Bydd y Cynllun Gweithredu Llifogydd yn cael ei adolygu a’i ddiweddaru bob 2 flynedd i adlewyrchu cyflawniad parhaus yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn erbyn Amcanion a Mesurau’r Strategaeth.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus, bydd y Cyngor yn ystyried yr ymatebion ac yn eu defnyddio i ddiweddaru a llywio'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu lle bo angen. Bydd y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu terfynol, yn ogystal â'r asesiadau amgylcheddol cysylltiedig, yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w cymeradwyo, cyn i ni gyflwyno'r ddogfen derfynol i Lywodraeth Cymru i'w chymeradwyo gan y Gweinidog perthnasol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymeradwyo nhw, bydd y Strategaeth a’r Cynllun Gweithredu yn cael eu mabwysiadu ym mis Mawrth 2024.